NNSS
GB non-native species secretariat

Ydych chi wedi gweld y pryfyn hwn?

CACYNEN ASIA

Vespa velutina

Beth ydyw?

Cacynen feirch estron oresgynnol sy'n dod yn wreiddiol o Asia yw hon. Dylid rhoi gwybod am gofnodion posibl ar unwaith. Mae'n ysglyfaethwr hynod o ffyrnig ac mae'n ymosod ar bryfed brodorol, ac yn fygythiad sylweddol i wenyn a pheillwyr eraill. Cafodd ei chyflwyno ar ddamwain yn Ffrainc yn 2004 ac yno lledaenodd yn gyflym. Mae nifer o gacwn wedi eu gweld a'u cofnodi yn y DU ers 2016.

Dylech roi gwybod ar unwaith os tybiwch eich bod wedi gweld un, gan ddefnyddio'r manylion ar waelod y poster.



Ble allwn i ddod o hyd iddi?

Mae'n bosibl y'i gwelir ar blanhigion blodeuol, ger cychod gwenyn, o gwmpas ffrwythau a phrotein sy'n pydru neu'n eplesu, ac mewn marchnadoedd stryd, wedi ei denu gan ffrwythau melys a stondinau pysgod.

Mae'n weithgar rhwng Chwefror a Thachwedd ledled Cymru a Lloegr.

Beth yw ei nodweddion?

- Ychydig yn llai na'r gacynen feirch frodorol
- Abdomen tywyll, pedwerydd segment yn felyn / oren
- Blaenau melyn llachar i'r coesau (rhai'r gacynen feirch frodorol yn dywyll)
- Thoracs cwbl frown neu ddu (y gacynen feirch frodorol yn fwy oren)

Abdomen Cacynen Asia



Abdomen Cacynen Feirch Frodorol

Nyth cacynen Asia

'Gweilch' y tu allan i nythfeydd gwenyn mêl

PERYGL!

Mae'r gacynen hon yn pigo.
Peidiwch ag aflonyddu ar nyth actif.
Ceisiwch gyngor drwy ddefnyddio'r manylion isod.

Rhowch wybod os byddwch yn gweld y rhywogaeth hon:

gyda'r ap iPhone ac Android am ddim: Asian Hornet Watch

ar-lein: www.nonnativespecies.org/alerts/asianhornet

trwy e-bost: alertnonnative@ceh.ac.uk